Crynodeb 60 eiliad

# Ymarferwyr meddygol preifat: gwybodaeth ar gyfraith cystadleuaeth

## Os ydych chi'n gweithio fel ymarferwr meddygol mewn practis preifat, yna gallai rhannu prisiau neu wybodaeth fasnachol gydag ymarferwyr preifat eraill greu perygl o dorri'r gyfraith.

Mae'n bwysig fod y pris mae cleifion a darparwyr gofal iechyd yn ei dalu am ofal meddygol yn cynrychioli gwerth da am arian. Mae pwysau cystadleuol yn helpu cadw ffioedd rhag chwyddo neu fod yn anghyfiawnadwy o ddrud. Gall ceisiadau i ddiddymu'r pwysau hwn fod yn anghyfreithlon dan gyfraith cystadleuaeth.

Os ydych chi'n gweithio gyda'ch cystadleuwyr ar hyn o bryd, neu os ydych chi'n bwriadu gwneud hynny, yna dylech gyflawni hunanasesiad i sicrhau bod eich ymddygiad yn cydymffurfio â chyfraith cystadleuaeth.

**Nid yw'r cyngor hwn yn berthnasol i waith a gyflawnir dan gyflogaeth gyda'r GIG parthed gwasanaethau a ariennir gan y GIG.**

### Pwy yw'ch cystadleuwyr?

- Oni bai eich bod yn gweithio mewn grŵp megis Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP) *a* byth yn gweithio fel unig fasnachwr, yna fel arfer mae'r holl ymarferwyr meddygol eraill (yn cynnwys y rhai o fewn eich grŵp) sy'n darparu gwasanaethau tebyg i chi yn yr un farchnad ddaearyddol yn gystadleuwyr i chi.
- Clinigau a chyfleusterau preifat yn yr un farchnad ddaearyddol sy'n darparu triniaethau tebyg i'r rhai a gyflawnir gennych chi (e.e. ysbytai preifat).

### Beth na allwch chi ei wneud

- Cydlynu gyda'ch cystadleuwyr er mwyn cadw prisiau ar lefel benodol.
- Cytuno gyda'ch cystadleuwyr i godi pris sefydlog neu fecanwaith i osod prisiau.
- Cytuno i rannu marchnadoedd (fel llefydd penodol) neu gwsmeriaid rhyngoch chi a'ch cystadleuwyr.
- Trafod gyda'ch cystadleuwyr eich cynlluniau masnachol ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys sut ydych chi'n bwriadu ymateb i fentrau prisio neu wahoddiadau tendr.

### Beth allwch chi ei wneud

Nid yw cyfraith cystadleuaeth yn gwahardd cydweithio mewn grwpiau na chydweithredu ar rannu gwybodaeth o ran ymarfer glinigol a gwneud atgyfeiriadau yn seiliedig ar resymau gwrthrychol/angen clinigol. Fodd bynnag, os ydych chi eisiau cydweithredu mewn modd sydd, er enghraifft, yn cynnwys rhannu gwybodaeth fasnachol sensitif, yna dylech sicrhau ei fod yn bodloni'r prawf ar gyfer eithriad.

Mae'r gyfraith yn caniatáu ar gyfer cydweithrediad o'r fath ar yr amod ei fod yn cyfrannu i wella cynhyrchu neu ddosbarthu neu hyrwyddo cynnydd technegol neu economaidd, tra'n darparu cyfran deg o'r budd dilynol i gwsmeriaid, ac nad yw'n:

- rhoi cyfyngiadau ar yr ymrwymiadau dan sylw nad ydynt yn anhepgor i gaffael yr amcanion hyn;
- caniatáu y gallai ymrwymiadau o'r fath ddileu cystadleuaeth parthed rhan sylweddol o'r cynnyrch dan sylw.



### Pam ei fod yn bwysig

Golyga cystadlu iach fod marchnadoedd yn gweithio'n dda i ddefnyddwyr, busnesau a'r economi. Mae cyfraith cystadleuaeth yn atal ymddygiadau sy'n gallu peryglu hyn.

Gallwch gael dirwy, fel busnes ac fel unigolyn, os byddwch yn torri cyfraith cystadleuaeth. Gall cosbau fod yn sylweddol a hyd at 10% o'ch trosiant.

### Darllenwch lythyr y CMA i ymarferwyr meddygol preifat:
bit.ly/DoctorsLetter

### Am ragor o wybodaeth ar gyfraith cystadleuaeth:
www.gov.uk/cma

### Cysylltwch â'r CMA:
Ff: 020 3738 6000

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**